Dogfen ir Cyhoedd

# PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

## Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014 (10.30 o'r gloch)

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda yr adroddiad sydd wedi cael ei ddynodi fel "Adroddiad Hwyr" ar raglen y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol:

**5** **GRANTIAU BLYNYDDOL 2014/15** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.
*(Adroddiad Hwyr)*

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **8 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2014/15** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CEISIADAU AMLINELLOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â'r Gronfa Degwm. Y dyddiad olaf derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 oedd 9 Mai 2014.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau yn yr Adain Gyllid, byddant yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau eraill, hynny yw ceisiadau sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm, yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn a ddim gan yr Ymddiriedolaeth yma.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

**5.** Yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2014, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol roi'r awdurdod i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo'r holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau ac a oedd yn cydymffurfio gyda meini prawf cyllido'r Ymddiriedolaeth a hynny heb ragfarn i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ac y gellid defnyddio rhan o'r gronfa gyfalaf i'r perwyl hwn petai raid. Os yw'r Pwyllgor hwn yn dymuno ystyried y grantiau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau, yna bydd atodiad ar wahân ar gael yn y cyfarfod i'r Aelodau edrych arno ac ystyried a phenderfynu ar geisiadau o'r fath. Os bydd yr atodiad hwn yn cael ei ystyried, yna caiff ei amgáu fel Atodiad Ch i'r adroddiad hwn. Mae'r Atodiad yn cynnwys 5 cais, sy'n argymell cyfanswm o £14,825.

**6.** Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad C.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r grantiau dilys, hyd at uchafswm o £6,000. Mae Atodiad B yn delio â'r grantiau 'Grantiau Bychain'; yr argymhellion yw i gefnogi grantiau cymwys ar uchafswm o £1,000. Buasai hyn yn costio cyfanswm o £103,178 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn.

Noda'r canllawiau uchafswm o £6,000 ar gyfer grantiau Cyfleusterau Cymunedol a £1,000 ar gyfer grantiau bychain, gyda uwch derfyn o 80%. Yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**9.** Mae Atodiad B yn delio â grantiau eraill, sy'n cynnwys agweddau gofal cymdeithasol.

**10.** Buasai dilyn yr argymhellion uchod yn golygu gwario cyfanswm o £103,178.

| | **ARFAETHEDIG 2014/15** | | **GWIRIONEDDOL 2013/14** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **No.** | **£** | **No.** |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (Atodiad A) | 100,178 | 43 | 35,151 | 14 |
| Grantiau Eraill (Atodiad B) | 3,000 | 9 | Dim | Dim |
| | **103,178** | **54** | **35,151** | **14** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion yn yr Atodiadau.

**11. Y PENDERFYNIADAU SYDD EI ANGEN**

**(a)** ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir yn Atodiadau A a B;

**(b)** ystyried adolygu'r ceisiadau hwyr ac, os adolygir, daw rhain yn Atodiad Ch;

**(c)** petai Atodiad Ch yn cael ei ychwanegu i'r adroddiad ac yn cael ei ystyried, ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir o fewn yr atodiad ychwanegol.

**RICHARD MICKLEWRIGHT** **30 MEHEFIN 2014**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG A151 DROS DRO**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| **Cyf.** ***Ref.*** | **Enw'r Mudiad** ***Name of Organisation*** | **Pwrpas y Cais** ***Purpose of Application*** | **Cost** ***Cost*** **(£)** | **Cais am** ***Request*** **(£)** | **Sylwadau** ***Remarks*** | **Swm a Awgrymir** ***Sum Suggested*** **(£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Digwyddiadau Carnifal Llanfairpwll *Llanfairpwll Carnival Events* | Codi safonau'r ystafelloedd newid a'r gegin./ *Improve the standard of the changing rooms and kitchen.* | 4,354 | 4,054 | Nid yw'r mudiad yn berchen i'r adeilad, nac ydyw â lês arno./ *The organisation does not own the building and nor does it have a lease of it.* | DIM *NIL* |
| **5** | Canolfan Gymuned Brynsiencyn *Brynsiencyn Community Centre* | Uwchraddio'r system gwresogi am un sy'n fwy effeithlon ac yn rhatach i'w redeg./ *To upgrade the heating system for one that is more energy efficient and cheaper to run.* | 2,634 | 2,047 | Yn amodol ar ymestyn y brydles i 21 o flynyddoedd neu fwy yn y flwyddyn gyllidol hon. / *Subject to extending their lease to 21 years or above during this financial year.* | 1,844 |
| **6** | Clwb Henoed Millbank *Millbank Senior Citizens Club* | Addasu toiled ar gyfer yr anabl ac atgyweirio wal derfyn./ *Adapt toilet for the disabled and repair outside boundary wall.* | Heb ei nodi *Not stated* | 6,000 | Yn amodol ar dderbyn ail bris./ *Subject to receipt of a second quote.* | Hyd at 70% o'r dyfynbris isaf, hyd at uchafswm o £6,000. / *Up to 70% of lowest quote, maximum award being £6,000.* |
| **7** | 2474 Cadetiaid Awyr (Cefni) *2474 (Cefni) Air Cadéts* | Uwchraddio systemau cyfrifiadurol fel y gall y cadetiaid astudio ar gyfer a sefyll arholiadau sy'n rhan o faes lafur y Cadetiaid Awyr, gan arwain at 4 dyfarniad BAETIWCH. Hefyd gwella'r profiad dynwaredwr hedfan / *Upgrade computer systems to enable cadets to study for and sit exams on the Air Cadets syllabus, leading to 4 BAETIWCH awards. Also, to improve the flight simulator experience.* | 3,320 | 2,320 | | 2,320 |
| **10** | Ffrindiau Pentraeth *Pentraeth Friends* | Creu safle chwarae diogel ar gyfer y gymuned. / *Create a safe play area for the local community* | 20,000 | 6,000 | Mae'r safle ar dir yr ysgol, felly, ddim yn gymwys./ *The area would be located on the school's grounds and is, therefore, not eligible for funding.* | DIM *NIL* |
| **11** | Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn | Uwchraddio'r Neuadd yn Llanfairpwll (gorchudd diddosi ar y to)/ | 3,600 | 3,600 | Neuadd Llanfairpwll yw cartref y WI gyntaf ym Mhrydain a byddant yn dathlu eu | 2,520 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Anglesey Federation of the Women's Institute* | *To upgrade the hall at Llanfairpwll (waterproofing cover to the roof)* | | | canmlwyddiant yn 2015./ *The Hall at Llanfairpwll is the home of the first WI in Britain and they will be celebrating their centenary in 2015.* | |
| **13** | Parc Ffrindiau Pandy | Llwybr a chylchfan addas i gadair olwyn yn y maes chwarae./ *Path and wheelchair accessible roundabout in the playground.* | 16,000 | 6,000 | Dim digon o wybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais./ *Insufficient information submitted with the application.* | DIM/ *NIL* |
| **14** | Clwb Rygbi Llangefni *Llangefni Rugby Club* | Prynu a gosod "dugouts" / *Purchase and install dugouts.* | 10,200 | 6,000 | Dim digon o wybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais./ *Insufficient information submitted with the application.* | DIM/ *NIL* |
| **16** | Neuadd Gymuned yr Eglwys Moelfre *Moelfre Community Church Hall* | Uwchraddio' r system wresogi./ *Upgrade the heating system.* | 11,838 | 6,000 | Dim yn gymwys - wedi derbyn grant yn 2012/2013./ *Not eligible as they received a grant in 2012/2013.* | DIM/ *NIL* |
| **18** | Sefydliad Pritchard Jones Cyf. *Pritchard Jones Institute Ltd* | Rhoi ffenestri newydd ym mwthyn 4/ *Install new windows in cottage no. 4.* | 2,880 | 2,880 | Nid yw'n gynllun sydd wedi derbyn cefnogaeth yn flaenorol./ *Not a type of scheme that the Trust has previously supported.* | DIM/ *NIL* |
| **19** | Clwb Rygbi Porthaethwy *Menai Bridge Rugby Club* | Adeiladu storfa offer/ ystafell ffitrwydd./ *Construction of an equipment store/fitness room.* | 32,304 | 6,000 | Yn amodol ar ymestyn ei brydles i 21 o flynyddoedd neu fwy yn y flwyddyn gyllidol hon./ *Subject to extending their lease to 21 years or above during this financial year.* | 6,000 |
| **20** | Malltraeth Ymlaen Cyf/*Ltd.* | I ddatblygu man chwarae yng nghymuned Bodorgan./ *To develop a play area in the community of Bodorgan.* | 5,688 | 3,008 | Ddim yn gymwys - wedi derbyn grant yn 2012/2013./ *Not eligible as they received a grant in 2012/2013.* | DIM *NIL* |
| **22** | Cymdeithas Chwaraeon Llanfairpwll *Llanfairpwll Sports Association* | Ystafelloedd Newid./ *Changing Rooms.* | Heb ei nodi *Not stated* | | Dim digon o wybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais./ *Insufficient information submitted with application.* | DIM *NIL* |
| **23** | Neuadd Gymuned Brynteg *Brynteg Community Hall* | Uwchraddio ffenestri a drysau tân./ *Upgrade windows and fire doors.* | 6,106 | 5,600 | | 4,274 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **27** | Mudiad Cae Cybi<br>*Cae Cybi Field Association* | Gwelliannau i'r cae chwarae./<br>*Improvements to play area.* | 10,000 | 6.000 | Yn amodol ar dderbyn ail bris./<br>Subject to receipt of a second quote. | 70% o'r pris isaf, grant wedi ei gyfyngu i £3,720./<br>*70% of the lowest quote, grant capped at £3,720* |
| **28** | Cyngor Cymuned Cwm Cadnant<br>*Cwm Cadnant Community Council* | Atgyweiriadau allanol./<br>*External Repairs.* | 12,000 | 6,000 | Mae'r cais ar gyfer ail-rendro i atal gwlybaniaeth rhag mynd i mewn i'r eiddo sy'n Rhestredig Gradd 2./<br>*The application is for re-rendering to prevent moisture from entering the property which is Grade 2 Listed.* | 6,000 |
| **29** | Canolfan Cymunedol Llanfaes<br>*Community Centre* | Gwelliannau i'r ganolfan yn cynnwys ffenestri, dau ddrws a landerau./<br>*Improvements to the Centre including windows, two doors and guttering.* | 15,500 | 6,000 | Yn amodol o dderbyn prydles am 21 o flynyddoedd neu fwy. Pris rhataf a gyflwynwyd yw £7,050./<br>*Subject to renewing the lease to 21 years or over during this financial year. The lowest estimate submitted is for £7,050.* | 4,935 |
| **30** | Neuadd Bentref Y Talwrn<br>*Talwrn Village Hall* | Prynu Offer, Teledu Mawr, Chwaraewr DVDs a System Gemau Gyfrifiadurol i Ystafell Ysgol Feithrin a System Taflunydd a Sgrin Fawr yn y Brif Neuadd. Yr Ystafell Ysgol Feithrin yw'r enw a roddir i'r ystafell a byddai'r gymuned yn defnyddio'r offer./<br>*Purchase equipment, Large Television, DVD player and Computer Gaming System for the 'Nursery School Room'and OHP and Large Screen for the 'Main Hall' The Nursey School Room is the name given to the room and the equipment would have community use.* | 1,834 | 1,467 | | 1,284 |
| **32** | Cymdeithas Lenyddol Y Leinws<br>*Leinws Literary Association* | Ariannu Siaradwyr/Darlithwyr./<br>*Funding for Speakers/Lecturers.* | Heb ei nodi<br>*Not stated* | 300 | Ddim yn gymwys ac yn cyfeirio at ffynhonnell arall o gyllid./<br>*Not eligible and referred to alternative source of funding.* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **33** | Canolfan Gymuned Moelfre<br>*Moelfre Community Centre* | Uwchraddio cyfleusterau cymunedol Lleol – Safle 5 bob ochr./<br>*Upgrade the local community's facilities – the 5 a side site.* | 6,794 | 5,436 | Yn amodol ar dderbyn 2ail bris./<br>*Subject to receiving 2nd quote.* | 70% o'r pris isaf, grant wedi ei gyfyngu i £4,756./<br>*70% of the lowest quote, grant capped at £4,756* |
| **34** | Gwasanaeth Gwirfoddoli Arforol – Uned Porthaethwy<br>*Maritime Volunteer Service - Menai Bridge Unit.* | Prynu defnyddiau hyrwyddo, offer hyfforddi addysgiadol a diogelwch ar gyfer rhaglen hyfforddiant cymunedol dwy flynedd./<br>*Purchase of promotional materials, educational, instructional and safety equipment for two year training based community programme.* | 4,072 | 2,783 | Wedi darparu dadansoddiad o'r costau ond mae angen cyflwyno prisiau gan gyflenwyr./<br>*Have provided breakdown of costs but need to submit estimates from suppliers.* | 70% o'r pris isaf, grant wedi ei gyfyngu i £2,850./<br>*70% of the lowest quote, grant capped at £2,850* |
| **38** | Clwb Ieuenctid Newry<br>*Newry Youth Club* | Prynu offer chwarae i'r clwb./<br>*To purchase play equipment for the club.* | 1,891 | 1,791 | Clwb Ieuenctid Gwirfoddol i blant 5 – 11. Amodol ar gyflwyno 2ail brisiau./<br>*Voluntary Youth Club for children aged 5 – 11. Subject to receipt of 2nd quotation.* | 70% o'r pris isaf, grant wedi ei gyfyngu i £1,324./<br>*70% of the lowest quote, grant capped at £1,324* |
| **39** | Boston Centre Stage | Ail-beintio tu allan i'r neuadd./<br>*Re-paint the outside of the hall.* | 3,500 | 3,500 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau tuag at ail-beintio./<br>*The Trust does not give grants towards re-painting.* | DIM<br>*NIL* |
| **40** | Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Parc Y Bont/<br>*Parc Y Bont School - Parent Teacher Association* | Adeiladu trywydd pren a wal pêl-droed bren annibynnol./<br>*Build a timber trail and freestanding timber football wall.* | 4,521 | 4,000 | Mae'r cae chwarae yn rhan o Ysgol Parc y Bont ac, o'r herwydd, nid yw'n gymwys./<br>*The playing fields are part of Ysgol Parc Y Bont, therefore, this is not eligible for funding.* | DIM<br>*NIL* |
| **41** | Grŵp Rhwydwaith Ynys Môn o Ddysgu Awyr Agored Cymru Môn./<br>*Ynys Môn Outdoor Learning Wales Network Group* | I gynnal 2 ddiwrnod addysgiadol a 2 ddiwrnod yng Ngŵyl Coetir Môn ym Mhlas Newydd./<br>*To run 2 education days and 2 days at the Anglesey Woodland Festival.* | 9,900 | 4,000 | Ddim yn gais penodol, felly, ddim yn glir sut fyddai'r arian yn cael ei ddefnyddio./<br>*Not a specific application, therefore, not clear what the funding would be used for.* | DIM<br>*NIL* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **45** | *Cae Chwarae Llangoed*<br>*Llangoed Playing Field* | Prynu ffrâm ddringo./<br>*Purchase Climbing Frame.* | | | Heb anfon cais cyflawn./<br>*Lack of information in the application.* | DIM<br>*NIL* |
| **46** | Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch./<br>*Beaumaris and District Leisure Centre.* | Drysau newydd gyda phad allwedd electronig i brif fynedfa'r adeilad./<br>*New doors when electronic key paid to the front entrance of the building.* | 10,500 | 6,000 | Ddim yn gymwys - wedi derbyn grant yn 2013/2014./<br>*Not eligible as they received a grant in 2013/2014.* | DIM<br>*NIL* |
| **47** | Neuadd Gymunedol a Chyn-Filwyr Benllech<br>*Benllech Community and Ex-Servicemen's Hall* | Uwchraddio ac amnewid y trydan yn y neuadd i "LED"./<br>*Upgrading and replacement of hall electrics and installation of LED lighting.* | 10,487 | 6,000 | | 6,000 |
| **48** | Clwb Cychod Cemaes<br>*Cemaes Boat Club* | Prynu cwch RIB (cwch chwyddadwy) i'w ddefnyddio fel cwch diogelwch./<br>*Purchase a suitable RIB (inflatable boat) to be used as a safety boat.* | 5,000 | 5,000 | | 3,500 |
| **49** | Pwyllgor Cae Chwarae Tregele<br>*Tregele Playing Field Committee* | Prynu Offer Chwarae./<br>*Purchase play equipment.* | 30,000 | 6,000 | Mae'r Pwyllgor wedi derbyn grantiau eraill o £24,000./<br>*The Committee have received other grants totalling £24,000* | 6,000 |
| **50** | Cyngor Cymuned Llaneilian<br>*Llaneilian Community Council* | Arwyneb Diogelwch newydd ar gae chwarae Penysarn./<br>*New safety surface at Penysarn playing fields.* | 4,176 | 3,340 | | 2,923 |
| **52** | Cae Chwarae Llanfaethlu<br>*Llanfaethlu Playing Field* | Prynu seddi a byrddau i'r parc./<br>*Purchase seating and tables for the park.* | 8,500 | 8,500 | Yr amcangyfrif rhataf a gyflwynir yw £3,177./<br>*The cheapest estimate submitted is £3,177.* | 2,224 |
| **53** | Menter Mechell | I helpu gyda'r cyllid y mae ei angen ar unwaith i brynu'r hen Swyddfa Bost yn Llanfechell – bydd honno wedyn yn cael ei hatgyweirio a'i haddasu gan drigolion y pentref fel siop ym mherchenogaeth y gymuned a hyb cymdeithasol ar gyfer y gymuned /<br>*To help fund the immediate purchase of the old Post Office in Llanfechell. This will then be renovated and converted by village residents as a community owned shop and social hub for the community.* | 135,000 | 6,000 | Mae'r grŵp wedi codi £123,000 tuag at y pryniant a byddai'r grant hwn yn fodd iddynt gyrraedd eu targed bron./<br>*The group has raised £123,000 towards the purchase and this grant would enable them to nearly reach their target.* | 6,000 |
| **54** | Canolfan Gymunedol Kingsland<br>*Kingsland Community Centre* | Adnewyddu system wresogi./<br>*Renewal of the central heating system.* | 23,414 | 6,000 | Amodol ar brawf daliadaeth./<br>*Subject to receipt of proof of tenure.* | 6,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **55** | Ffrindiau Parc y Gors<br>*Friends of Parc y Gors* | Gwelliannau i'r cae chwarae.<br>*Improvements to the playing field.* | 10,000 | 6,000 | Yn amodol ar dderbyn 2ail bris a chyfrifon./<br>*Subject to receiving 2nd quote.* | 70% o'r pris isaf, wedi ei gyfyngu i £6,000./<br>*70% of lowest quote, capped at £6,000.* |
| **56** | Pwyllgor Maes Chwarae Bodffordd<br>*Bodffordd Playing Field Committee* | Atgyweirio arwyneb y llawr diogel, rhoi tywyrch newydd ar ardal ar gyfer chwarae pêl- droed, seddau newydd, goliau pren a bin sbwriel newydd./<br>*Repair safety surfacing, re-turf an area for football play, new seating, wooden goals and new litter bin.* | 3,300 | 3,300 | Angen 2 bris am y tywyrch a'r goliau pren ac yn anfon cyfansoddiad. Dyfarniad yn amodol ar yr uchod./<br>*Need to submit 2 prices for the turf and wooden goals and submit constitution*. Award subject to receipt of the aforementioned. | 70% o'r pris isaf, wedi ei gyfyngu i £2,310./<br>*70% of lowest quote, capped at £2,310.* |
| **59** | Cyngor Cymuned Trewalchmai<br>*Trewalchmai Community Council* | Adnewyddu ag atgyweirio cofeb/cloc y pentref./<br>*Renovate and repair the village memorial/clock.* | 23,922 | 6,000 | Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn £16,922 o grantiau eraill. Ni allant gyflwyno dim ond un amcan bris gan mae dim ond un cwmni sydd yn gwasanaethu'r ardal yn y gwaith arbenigol hwn./<br>*The Community Council has secured £16,922 grants from other sources. As there is only one company, in this area, that carries out this type of specialised work, they are only able to submit one quotation.* | 6,000 |
| **60** | Unigolyn Preifat / *Private Individual* | Cyhoeddi llyfr o farddoniaeth./<br>*Publish book of poems.* | Heb ei nodi/<br>*Not stated* | Heb ei nodi/<br>*Not stated* | Cais unigolyn – ddim yn gymwys./<br>*Individuals are not eligible for funding.* | DIM<br>*NIL* |
| **62** | Clwb Pêl-droed Bae Trearddur<br>*Trearddur Bay Football Club.* | I sicrhau parhad Clwb Pêl- droed Cymunedol egnïol./<br>*To enable the continuation of an active community football club.* | 1,530 | 800 | Dim cynllun penodol wedi'i nodi ar y cais a heb gyflwyno prisiau./<br>*No specific plan has been identified on the applications and no quotes submitted.* | DIM<br>*NIL* |
| **64** | Cyngor Cymuned *Bryngwran*<br>*Bryngwran Community Council* | Ffens newydd ar gyfer safle cae chwarae'r gymuned./<br>*New fencing for community play area.* | 3,426 | 2,855 | Bwriad y Cyngor Cymuned yw codi ffens newydd yn lle'r hen ffens wifrog, nid yn unig i wella'r cae chwarae ond i ychwanegu at ddiogelwch cae chwarae'r plant./<br>*It is the intention of the Community Council to replace the old wired fence with a new fence not only to enhance the playing field but also add security to the children's play area.* | 2,398 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **65** | Cyngor Cymuned Penmynydd<br>*Penmynydd Community Council* | Meinciau i'w gosod mewn amryw o leoliadau yn y gymuned ar gyfer cerddwyr i eistedd i orffwys ac at ddefnydd cyhoeddus eraill./<br>*Benches to be placed at various locations in the community for walkers to rest and for other public use.* | 1,350 | 1,125 | | 945 |
| **67** | Cyngor Cymuned Y Fali<br>*Valley Community Council* | Darparu ystafell gyfarfod/gymunedol./<br>*Provide meeting /community room.* | 1,482 | 1,243 | Wedi derbyn grant yn 2012/2013./<br>*Received a grant in 2012/2013* | DIM<br>*NIL* |
| **68** | Cymdeithas Rhandiroedd Bryn Du<br>*Bryn Du Allotment Association* | Prynu politwnnel, offer garddio a gosod ffens er mwyn sefydlu menter "tyfu cymunedol"./<br><br>*Purchase polytunnel, gardening tools and fencing in order to set up "community growing".* | 3,760 | 2,936 | Wedi cyflwyno amcangyfrif o'r costau ond heb gyflwyno prisiau. Gan nad yw'r mudiad yn berchen y tir, argymhellir rhoi nawdd ar gyfer yr offer yn unig ond nid am y ffens. Yn amodol ar gyflwyno 2 bris am yr offer./<br>*Have provided breakdown of costs but have not submitted quotations. As the land does not belong to the Association it is recommended that consideration of funding be given to the purchase of the equipment only and not the fencing. Subject to receipt of two quotations for the equipment.* | 70% o'r pris isaf, wedi ei gyfyngu i £2,051./<br>*70% of lowest quote, capped at £2,051*. |
| | | | | | **Cyfanswm/Total** | **£103,178** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad Name of Organisation | Pwrpas y Cais Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **15** | Fforwm Anabledd Taran Cyf. | Fel y gellir datblygu gwasanaeth papurau newydd ar CD i bobl yn Ynys Môn a chanddynt nam ar eu golwg; bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl mewn lleoliadau gwledig. Gyda'r arian hwn, gellid darparu'r gwasanaeth am 12 mis gyda golwg ar iddo gyllido ei hun yn y man. / *To enable the development of a dedicated weekly talking newspapers service on CD for the visually impaired on Anglesey; this will include reaching out to people in rural locations. The funding would enable the service to be provided for 12 months, with a view to becoming self-sufficient.* | 1,278 | 1,000 | Ystyrir y byddai hyn yn dyblygu'r gwasanaeth a ddarperir gan Gymdeithas Gogledd Cymru ar gyfer y Deillion a'r Sawl sydd â Nam ar eu Golwg. / *This is considered to be a duplication of the service provided by the North Wales Society for the Blind and Visually Impaired.* | Dim / *Nil* |
| **17** | Ymgeisydd unigol / *Individual applicant* | Helpu i gyllido rhent a threthi siop yng Nghaergybi gyda'r nod o werthu eitemau i godi arian ar gyfer amryfal elusennau. / *To help fund the rent and rates of a shop in Holyhead with the intention of selling items to raise money for various charities.* | *Dim wedi ei ddatgan*/ Not stated | 1,000 | Nid yw ymgeiswyr unigol yn gymwys am gymorth grant. / *Individuals are not eligible for grant funding.* | Dim / *Nil* |
| **21** | Pensiynwyr *Llanfaethlu Pensioners* | Fel y gall y grŵp gynnal gweithgareddau awyr agored, h.y. tripiau dydd na fedrant fynd arnynt eu hunain / *To enable the group to have outside activities i.e. day trips, which they are unable to access themselves.* | 1,000 | 500 | *Byddai'r cynllun hwn yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ac yn lleihau unigedd. Fodd bynnag, nid yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth am y modd y daethpwyd i'r swm y gofynwyd amdano (dim dadansoddiad o'r amcangyfrifon costau) ac nid yw ychwaith yn nodi'r allbynnau o unrhyw ddyfarniad cyllideb (dim gwybodaeth am y nifer tripiau, cyrchfannau posib, a.y.y.b.)* | Dim / *Nil* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | *This would promote social inclusion and reduce isolation. However, the application doesn't provide information on how the stated funding requirement has been arrived at (no breakdown of cost estimates) and nor therefore does it specify the outputs from any funding award (no information on how many trips, possible destinations etc.)* | |
| **24** | Heneiddio'n Dda /<br>*Age Well Hwyliog Môn* | Helpu i gyllido costau llogi neuadd y dref, tripiau dydd, darparu gweithgareddau gan gyrff allanol a hysbysebu a chyhoeddusrwydd/<br>*To help fund the hire of the town hall, day trips, provision of activities by outside organisations and advertising and publicity.* | 16,700 | 5,700 | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleon cymdeithasol ac yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ac yn lleihau unigedd. Fodd bynnag, nid yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth am y modd y daethpwyd i'r swm y gofynwyd amdano (dim dadansoddiad o'r amcangyfrifon costau) a nid yw ychwaith yn nodi'r allbynnau o unrhyw ddyfarniad cyllideb. Yn ogystal, mae'r bid yn cynnwys cyllideb tuag at gostau rhedeg a nid yw'r rhain yn gymwys am gyllideb.<br><br>*This service does provide social opportunities and increases social inclusion and reduces isolation. However, the application doesn't provide information on how the stated funding requirement has been arrived at (no breakdown of cost estimates) and nor, therefore, does it specify the outputs from any funding award. The bid also includes funding towards running costs and running costs are not eligible for funding.* | Dim / *Nil* |
| **31** | Plwyf Biwmares (yr Eglwys yng Nghymru)<br>*Parish of Beaumaris*<br>*(The Church in Wales)* | Gwella profiad ymwelwyr i'r 7 Eglwys ym Miwmares drwy ddarparu byrddau arddangos hanesyddol a chyhoeddi arweinlyfr./<br>*To improve the visitor experience to the seven churches of Beaumarisby providing historical display boards and publishing a guidebook.* | 3,500 | 3,000 | Mae'r cais yn gynnig allgyrraedd i wella profiad yr ymwelydd ar gyfer trigolion a thwristiaid./<br>*The application is an outreach proposal to improve the visitor experience for residents and tourists.* | 70% o'r pris, grant wedi ei gyfyngu i £1,000/<br>*70% of costs, grant capped at £1,000* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **35** | Esgobaeth Bangor<br>*Bangor Diocese* | Cofnodi Archeolegol y beddrodau 14eg ganrif Alabaster a darparu byrddau dehongliadau dwyieithog am y beddrodau, hanes y teulu Tudur ac Eglwys Sant Gredifael, Penmynydd./<br>*The Archaeological Recording of Alabaster 14th Century Tombs, and the provision of bilingual interpretation boards about the tombs, the history of the Tudor family and St Gredifael Church, Penmynydd.* | 11,421 | 2,850 | Mae'r cais ar gyfer cymorth i gadw manylion cofeb hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol. Wedi derbyn £8,571 o grantiau eraill./<br>*The application is applied for to preserve the details of a nationally important historic monument. Have received £8,571 in other grants.* | 70% o'r pris, grant wedi ei gyfyngu i £1,000/<br>*70% of costs, grant capped at £1,000* |
| **44** | Partneriaeth Cymuned Porthyfelin<br>*Porthyfelin Community Partnership* | Arian Cyfatebol tuag at y Prosiect CHIME (menter Treftadaeth Gymunedol ar gyfer Ymgysylltu Morwrol)./<br>Match funding towards the CHIME Project. *(Community Heritage initiative for Maritime Engagement).* | 201,620 | 5,000 | Mae'r Bartneriaeth wedi derbyn swm o £188,350 mewn grantiau eraill./<br>*The Partnership has received a total of £188,350 from other grants.* | 70% o'r pris, grant wedi ei gyfyngu i £1,000/<br>*70% of costs, grant capped at £1,000* |
| **51** | Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd<br>*Community Council* | Gosod cyflenwad dŵr parhhaol yn y fynwent yn Llannerch-y-medd. /<br>*To install a permanent water supply to the cemetery in Llannerch-y-medd.* | 2,800 | 1,800 | Nid yw gwaith mewn mynwentydd wedi cael ei gyllido yn y gorffennol. /<br>*Works to cemeteries have not been funded in the past.* | Dim / *Nil* |
| **58** | Cyngor Tref Amlwch<br>*Town Council* | Ymestyn mynwent y dref. /<br>*To extend the town's cemetery.* | 8,327 | 8,327 | Nid yw gwaith mewn mynwentydd wedi cael ei gyllido yn y gorffennol. /<br>*Works to cemeteries have not been funded in the past.* | Dim / *Nil* |
| | | | | | **Cyfanswm/Total** | **3,000** |

**YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned**

## 1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH

**a)** Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**b)** Dim ond dan un category neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**c)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwys neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**ch** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am yr offer hwn.

**d)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**dd)** Rhaid amgáu o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**e)** <u>Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau</u>.

**f)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

## 2. GRANTIAU CYFALAF

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa petai'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff deisyfiad am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bo modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

## 2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNED

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn ymarferol.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Cenedlaethol, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir, a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn

parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliad blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

## 3. MUDIADAU CHWARAEON

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth hefo costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

## 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;
- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd raid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

## 5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymuned.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**c)** Ni ystyrir ceisiadau am gymorth ariannol gan sefydliadau y tu mewn i ardal Amlwch.